Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

15 Ebrill/April, 2015

At : Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusenol Ynys Môn ar **Dydd Mawrth, 21 Ebrill 2015 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 2.00 o'r gloch** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,

**YSGRIFENNYDD**

---

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Tuesday, 21 April, 2015 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 2.00 p.m.,** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,

**SECRETARY**

---

**Ysgrifennydd/Secretary :** Mr. Richard Parry Jones BA, MA
**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 20 Ionawr, 2015.

3 **GWEINYDDU YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL**

Derbyn diweddariad gan Mr. Philip Heath, Weightmans LLP mewn perthynas â'r uchod.

4 **NEWIDIADAU I'R TREFNIADAU AR GYFER PENODI SWYDDOGION YR YMDDIRIEDOLAETH** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

5 **CANOLFAN CODI PWYSAU A FFITRWYDD CAERGYBI A MÔN - CAIS AM CYLLID** (Tudalennau 9 - 38)

Derbyn cyflwyniad gan Mr. Ray Williams, Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi a Môn mewn perthynas a chais am gyllid gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

6 **TIR RHOSGOCH - GOHEBIAETH A DDERBYNIWYD** (Tudalennau 39 - 44)

- Cyflwyno gohebiaeth a dderbyniwyd gan Mr. Rhun ap Iorwerth AC.

  Cyflwyno gohebiaeth a dderbyniwyd gan Glerc Cyngor Tref Amlwch.

7 **EITEMAU SYDD YN DEBYGOL O GAEL EI TRAFOD YN BREIFAT**

8 **DIWEDDARIAD - TIR RHOSGOCH**

Cyflwyno adroddiad llafar gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas a Thir Rhosgoch.

9 **DIWEDDARIAD AR DDYLED YR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL I GYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 45 - 46)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | T. Victor Hughes (Cadeirydd)<br>A M Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, T Ll Hughes, K P Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, H E Jones, G O Jones, R.Meirion Jones, Raymond Jones, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas a Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yn ôl teitlau eu swyddi yn CSYM)**<br><br>Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfrifo (BO),<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) (BD),<br>Cyfrifydd Rheoli Cyfalaf a'r Trysorlys (GR),<br>Cymhorthydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Lewis Davies, Jeff Evans, D R Hughes, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, R G Parry OBE a Nicola Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2014 fel rhai cywir.

### 3 GWEINYDDU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr. Phillip Heath, Weightmans LLP i'r cyfarfod.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd adroddiad cefndirol i'r cyfarfod ar y rhesymau pam fod Mr. Heath wedi'i wahodd i annerch y cyfarfod. Nododd bod gan Aelodau'r Ymddiriedolaeth bryderon ynglŷn â gweinyddu'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol ac ynglŷn â diogelu asedau'r Ymddiriedolaeth er budd preswylwyr Ynys Môn.

Rhoddodd Mr. Phillip Heath amlinelliad o'r materion y bydd angen cael eglurder arnynt er mwyn diogelu asedau'r Ymddiriedolaeth:-

- Roedd Gweithred wreiddiol yr Ymddiriedolaeth yn dyddio o 1990 ac mae'n cyfeirio at Ynys Môn fel 'Bwrdeistref' ac o fewn termau diffinio'r ddogfen mae'n diffinio'r Ymddiriedolwyr fel y 'Cyngor' ac unrhyw bersonau eraill sy'n dal swydd fel Ymddiriedolwr yr Ymddiriedolaeth. Yn 1996 fe wnaed 'Gweithred Amrywio' gyda'r awdurdod lleol yn cysylltu â'r Comisiwn Elusennol i ddweud mai'r awdurdod lleol erbyn hyn oedd Cyngor Sir Ynys Môn. Fodd bynnag mae'n ymddangos ar

wefan y Comisiwn Elusennol nad ydynt wedi diwygio eu dogfennau. Mae'r 'ardal sydd yn elwa' yn cael ei nodi fel 'Bwrdeistref Ynys Môn' ar wefan y Comisiwn Elusennol.

- Pe bai yna newid yn y dyfodol yn strwythur llywodraeth leol byddai unrhyw Aelod o'r Cyngor hwnnw yn dod yn Ymddiriedolwr yr Ymddiriedolaeth boed ef/hi yn byw neu'n cynrychioli pobl ar yr ynys a'i peidio. Roedd Mr. Heath o'r farn y dylai'r Ymddiredolaeth bresennol ystyried mynd i gyswllt â'r Comisiwn Elusennol i gyflwyno Gweithred Amrywio i ddileu'r cyfeiriad at y 'Cyngor' a sicrhau mai'r ardal i elwa fyddai Ynys Môn yn hytrach na'r 'Bwrdeistref' neu'r 'Cyngor'.
- Dylid hefyd ystyried yr amcanion elusennol er mwyn eu diwygio i fod er budd cyffredinol rhai oedd yn byw ar Ynys Môn.

Roedd Aelodau'r Ymddiredolaeth Elusennol yn unfrydol yn eu dymuniad i Mr. Heath weithredu ar ran yr Ymddiredolaeth drwy gysylltu â'r Comisiwn Elusennol ynglŷn â'r materion a nodwyd uchod.

Wedi hynny rhoddodd Mr. Health amlinelliad o faterion yn ymwneud â gweinyddu'r Ymddiredolaeth Elusennol. Fe allai'r Comisiwn Elusennol ystyried bod y gwahaniad mewn diddordeb rhwng y Cyngor a'r Ymddiredolaeth Elusennol yn cyfateb i wrthdaro o ran diddordeb. Roedd angen i'r Ymddiriedolwyr ystyried fel a ganlyn:-

- Datgan bod y Cyngor yn darparu cefnogaeth weinyddol i'r Ymddiredolaeth. Byddai angen ymchwilio i gost y gefnogaeth ac adrodd yn ôl ar hynny i'r Ymddiredolaeth;
- Bod yr Ymddiredolaeth yn sefydlu ei Ysgrifenydd/ion ei hun i ddarparu cefnogaeth i'r Ymddiredolaeth;
- Allanoli gweinyddiaeth yr Ymddiredolaeth i sefydliad allanol.

Gofynnodd Aelodau'r Ymddiredolaeth Elusennol am i adroddiad gael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Ymddiredolaeth yn rhoi amlinelliad o'r costau a hefyd risgiau'r 3 opsiwn uchod.

Dywedodd yr Ysgrifennydd bod cwestiynau wedi'u codi yn y cyfarfod diwethaf o'r Ymddiriedolaeth ynglŷn â chymhwyster Amlwch i allu cyflwyno ceisiadau am gyllid gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol. Nododd fod Amlwch wedi derbyn etifeddiaeth ariannol gan Shell UK pan fu i'r cwmni adael yr ardal a chredir bod Cyngor Tref Amlwch wedi sefydlu grŵp i ddosbarthu grantiau wedi hynny er budd ardal Amlwch ar y cyfnod arbennig hwnnw. Roedd aelodau'r Ymddiriedolaeth yn gefnogol iawn i Amlwch gael ei ystyried fel unrhyw ardal arall ar yr Ynys i bwrpasau cyflwyno ceisiadau am gyllid grant gan yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, roeddent yn credu y dylid casglu gwybodaeth ynglŷn â'r sefydliadau oedd wedi elwa a bod angen cael mantolenni gan Gyngor Tref Amlwch cyn y gallai'r Ymddiredolaeth Elusennol lawn wneud penderfyniad ar y mater.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Gofyn i Mr. Heath gysylltu â'r Comisiwn Elusennol yng nghyswllt y gofynion yn y Weithred Amrywio fel a nodwyd uchod.**
- **Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno gan yr Ysgrifennydd a Mr. Heath ar y costau a hefyd y risgiau oedd ynglŷn â gweinyddiaeth yr Ymddiredolaeth Elusennol yn y dyfodol.**
- **Gwneud cais i'r Ysgrifennydd gysylltu â Chyngor Tref Amlwch am wybodaeth ynglŷn â mantolen a gwybodaeth am y rhai a fu'n elwa oddi wrth etifeddiaeth Shell UK i'r dref a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno wedi hynny i'r cyfarfod nesaf o'r Ymddiredolaeth Elusennol llawn.**

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2013/14

Cyflwynwyd – adroddiad drafft gan y Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau/Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) bod yr Adroddiad Blynyddol a'r cyfrifon yn awr wedi'u cwblhau a'u bod yn cael eu cyflwyno i'w mabwysiadu gan yr Ymddiredolaeth Elusennol. Nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau arwyddocaol yn y fformat nac yng nghynnwys y cyfrifon y flwyddyn hon.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon am 2013/2014 ac i awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo'r fersiwn derfynol.**

**5** **CYLLIDEB 2015/16**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r Alldro Dros Dro 2014/15 a Chyllideb 2015/16.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) bod angen i'r adroddiad gadarnhau dyraniadau cyllid ar gyfer 2015/16 ac i ddirprwyo'r pwerau cyllido i gyfleusterau cymunedol a chwaraeon a grantiau bychan i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. Roedd y ffigurau o fewn yr adroddiad yn seiliedig ar ragamcan o'r alldro ar gyfer 2014/15. Roedd yr alldro a ragamcenir am 2014/15 yn golygu y byddai arian refeniw wrth gefn ar 31 Mawrth 2015 yn dangos dyled o £25k. Gyda'r twf a ragamcenir mewn incwm buddsoddi, a chan dybio lleihad yng nghyllid Oriel Ynys Môn i £200k, a dychweliad cyllideb 2013/14 (£50k) a ddirprwywyd i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, rhagamcenir y bydd yr arian refeniw wrth gefn yn cynyddu i sefyllfa o warged o £7k yn 2015/16.

Y gyllideb grantiau sy'n cael ei hargymell ar gyfer 2015/16 yw:-

Oriel Ynys Môn £200k
Neuaddau Pentrefi £80k
Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan £50k (y pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gael awdurdod dirprwyedig i wneud y dyraniadau grant hyn).

Roedd sut yr oedd yr alldro dros dro a'r arian wrth gefn refeniw am 2014/15 yn gwahaniaethu oddi wrth y strategaeth a'r gyllideb wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

Cynigiwyd hefyd bod yr hysbyseb ar gyfer y grantiau blynyddol sydd i'w dyrannu gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yn cael eu gosod ganol fis Chwefror 2015, gydag amser cau o ganol mis Mai 2015 ar gyfer cyflwyno ceisiadau.

Rhai materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Mynegwyd pryderon bod yr argymhelliad o fewn yr adroddiad i ostwng y cyllid i Gyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan o £100k i £50k yn annerbyniol gan y bydd yn cael effaith ar sefydliadau bychan;

- Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r cyfyngiad grant ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan gael ei godi o £6k i £8k;

- Roedd rhai o aelodau'r Ymddiriedolaeth yn bryderus bod y cyllid i Oriel Ynys Môn i'w dorri. Dywedodd yr Ysgrifennydd bod penderfyniad i leihau dibyniaeth Oriel Ynys Môn ar gyllid gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi ei wneud ychydig flynyddoedd yn ôl gyda lleihad blynyddol fesul cam. Holodd Aelodau eraill a oedd yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn gweithredu'n gywir yn gyfreithiol wrth gefnogi'r Oriel. Dywedodd yr Ysgrifennydd bod arian yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi'i ddefnyddio i sefydlu'r Oriel ac i dalu costau ei rhedeg dros y blynyddoedd. Bydd cyfrifon yr Ymddiriedolaeth yn cael eu hanfon yn flynyddol i'r Comisiwn Elusennol ac nid oedd unrhyw her wedi ei derbyn erioed.

**PENDERFYNWYD:-**

- **I fabwysiadu cyllideb ar gyfer 2015/16 fel a ganlyn:-**

  **Oriel Ynys Môn £215k**
  **Neuaddau Pentrefi £80k**
  **Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan £125k**

- **I ddirprwyo'r swm o £125k i'r Pwyllgor Grantiau cyffredinol ar gyfer delio â cheisiadau.**

- **Bod uchafswm y grant yng nghyswllt Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Grantiau Bychan yn cael ei godi o £6k i £8k.**

## 6 MANDAD Y BANC

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) bod y rhestr o rai a awdurdodwyd i arwyddo'r mandad banc cyfredol ar gyfer cyfrifon banc lleol (rheolaeth uniongyrchol) yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu diweddaru ym mis Mawrth 2013, i gydymffurfio â phenderfyniad yr Ymddiredolaeth a Gweithred yr Ymddiredolaeth. Roedd mandad y banc yn cyfeirio at y rhai oedd â hawl i arwyddo ar gyfer y materion canlynol:-

(a) I dalu'r holl sieciau ac unrhyw gyfarwyddiadau eraill i dalu neu dderbyn cyfarwyddiadau i stopio taliadau o'r fath;
(b) Darparu unrhyw eitem sy'n cael ei ddal ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol gan y banc mewn lle diogel;
(c) I weithredu ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol mewn unrhyw drafodion eraill gyda'r banc (yn cynnwys cau cyfrifon);
(d) I gyflenwi i'r banc restr o rai sydd wedi'u hawdurdodi i arwyddo, rhoi derbynebau a gweithredu ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol.

Roedd angen person i arwyddo fel Trysorydd mewn nifer o fannau fel oedd wedi ei nodi yn yr adroddiad. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Drysorydd ar hyn o bryd, ac felly er mwyn sicrhau bod y mandad yn parhau i fod yn gyfredol mae angen cael gwelliant i'r rhestr o rai a awdurdodwyd i arwyddo. Bwriedir y caiff rhestr newydd o rai a awdurdodwyd i arwyddo fel mesur dros dro gael ei hadolygu unwaith y caiff Trysorydd ei benodi neu fel arall fel fydd yn briodol.

**PENDERFYNWYD, yng nghyswllt (a) i (d) (yn gynwysedig) uchod, i awdurdodi llofnod unrhyw ddau o'r canlynol, Ysgrifennydd yr Ymddiredolaeth, Trysorydd yr Ymddiriedolaeth, Cadeirydd yr Ymddiredolaeth Elusennol, Is-Gadeirydd yr Ymddiredolaeth Elusennol a Chadeirydd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.**

## 7 EITEMAU SY'N DEBYGOL O GAEL EU CYMRYD YN BREIFAT- DIWEDDARIAD AR DIR RHOSGOCH

### EITEMAU A GYMERWYD YN BREIFAT

Rhoddodd yr Ysgrifennydd adroddiad fel diweddariad ar werthiant y tir yn Rhosgoch. Nododd bod yr amser cau ar gyfer mynegiannau o ddiddordeb wedi cau fis Rhagfyr gyda nifer galonogol o rai yn dangos diddordeb yn y tir. Bydd yr ymgynghorwyr eiddo DTZ yn cynnal trafodaethau gyda phrynwyr tebygol a byddant yn adrodd yn ffurfiol wedi hynny i'r Ymddiriedolaeth Elusennol llawn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**MR. T. VICTOR HUGHES**
**CADEIRYDD**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **21 EBRILL 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **NEWIDIADAU I'R TREFNIADAU AR GYFER PENODI SWYDDOGION YR YMDDIRIEDOLAETH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYFLWYNO CYNIGION AR GYFER NEWID Y TREFNIADAU YNGHYLCH PENODI YSGRIFENNYDD, TRYSORYDD A CHYFREITHIWR/WRAIG AR GYFER YR YMDDIRIEDOLAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151 AR GYFER CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **CYMERADWYO'R NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R TREFNIADAU AR GYFER PENODI SWYDDOGION** |

**1. Cefndir a'r sefyllfa ar hyn o bryd**

**1.1** Y trefniadau arferol, hirsefydlog ar gyfer penodi Ysgrifennydd, Trysorydd a Chyfreithiwr/wraig ("swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth") yw bod deiliaid parhaol (yn unol â'r strwythur a'r teitlau cyfredol) swyddi'r Prif Weithredwr, Swyddog A151 a'r Swyddog Monitro ("swyddogion perthnasol y Cyngor") ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ("Y Cyngor") yn cael eu penodi i'r swyddi hyn. Os bydd unrhyw un o swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth yn peidio â bod yn swyddogion perthnasol i'r Cyngor, mae'r Ymddiriedolaeth wedyn yn penderfynu eu tynnu o'u swyddi fel swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth.

**1.2** Oherwydd cyfrifoldebau'r Cyngor fel gweinyddwr yr Ymddiriedolaeth hon, pan fo swyddog perthnasol yr Ymddiriedolaeth yn peidio â bod yn swyddog perthnasol i'r Cyngor, maent yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw i'r Ymddiriedolaeth hon ar unwaith a daw trefniadau dros dro i rym hyd nes y bydd swyddogion newydd wedi eu penodi. Bydd unrhyw oedi o ran penodi swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth, felly, yn fygythiad posib i lefel y ddarpariaeth gwasanaeth a dylid osgoi hynny i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

**1.3** O ganlyniad i'r trefniadau cyfredol, mae oedi anorfod, ac weithiau oedi y gellir ei osgoi, cyn penodi swyddogion perthnasol newydd y Cyngor sy'n arwain at newid yn swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth; mae hyn bob amser oherwydd amseriad digwyddiadau a chyfarfodydd ac weithiau oherwydd cyfnodau gwag yn sgil penodiadau dros dro.

**1.4** Dylid nodi bod y Trysorydd wedi gadael ei swydd fel Swyddog A151 y Cyngor ym mis Gorffennaf 2014 ac, felly, mae angen ei thynnu o'r swydd fel y Trysorydd.

**2. Datrysiad arfaethedig**

**2.1** Er bod yr Ymddiriedolaeth hon a'r Cyngor yn ddau endid ar wahân, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r Ymddiriedolaeth hon ac mae'n briodol, felly, bod swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth yn cael eu diweddaru'n awtomatig i adlewyrchu newidiadau yn swyddogion perthnasol y Cyngor. Yn ychwanegol, am yr un rhesymau, byddai'n briodol ymestyn diffiniad o swyddogion perthnasol y Cyngor i gynnwys penodiadau dros dro.

**2.2** Er mwyn gwella effeithlonrwydd, hyblygrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau, cynigir y dylid ymestyn y diffiniad o swyddogion perthnasol y Cyngor i gynnwys penodiadau dros dro a bod swyddogion perthnasol y Cyngor yn dod yn swyddogion perthnasol yr Ymddiriedolaeth ar sail ex-officio.

**2.3** Effaith y cynnig yn Adran 2.2 fyddai tynnu cyn Swyddog A151 y Cyngor, Clare Williams, o'i swydd fel Trysorydd yr Ymddiriedolaeth hon a'i disodli gyda Swyddog A151 cyfredol y Cyngor, Richard Micklewright. Yn ogystal, mae Prif Weithredwr y Cyngor, Richard Parry Jones, yn ymddeol ar 31 Mai 2015 a bydd Dr Gwynne Jones yn ymgymryd â'r swydd o 1 Mehefin 2015; effaith y cynnig yn Adran 2.2 fyddai gwneud Dr Gwynne Jones yn Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth yn awtomatig o 1 Mehefin 2015, gyda'r cam hwn yn cael ei nodi yn y cyfarfod cyntaf o'r Ymddiriedolaeth lawn yn dilyn y dyddiad hwnnw.

## 3. Argymhellion

**3.1** Cymeradwyo ymestyn y diffiniad o swyddogion perthnasol i gynnwys swyddogion dros dro'r Cyngor sydd yn cyflawni swyddi Prif Weithredwr, Swyddog A151, Swyddog Monitro i weithredu fel Ysgrifennydd, Trysorydd a Chyfreithiwr/wraig yr Ymddiriedolaeth.


**3.2** Cadarnhau bod Prif Weithredwr, Swyddog A151 a Swyddog Monitro'r Cyngor yn dal swyddi Ysgrifennydd, Trysorydd, Cyfreithiwr/wraig ar gyfer yr Ymddirioedolaeth ar sail ex-officio.

**3.3** Os cymeradwyir argymhellion 3.1 a 3.2, nodi tynnu enw Clare Williams fel y Trysorydd a phenodiad Richard Micklewright fel Trysorydd o ddyddiad y cyfarfod hwn.

**RICHARD MICKLEWRIGHT** **10 EBRILL 2015**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**

This page is intentionally left blank

# Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi a Môn
# Holyhead & Anglesey Weightlifting &Fitness Centre




## Ymddiriedolaeth Elusennol
## Charitable Trust

## 21 /04/ 2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymddiriedolaeth Elusennol
Ynys Môn
*Anglesey Charitable Trust*

sportwales
chwaraeoncymru

Menter Môn

# Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi a Môn

## Holyhead & Anglesey Weightlifting &Fitness Centre

- Aelod o Gwmni Cyswllt Codi Pwysau Cymru
- Sefydlwyd yn 1968
- Ynys Eang
- Menter Gymdeithasol 2011

- Affiliated to Wales Weightlifting
- Established in 1968
- Island wide
- Social Enterprise 2011

# Canolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi a Môn

## Holyhead & Anglesey Weightlifting &Fitness Centre

- 5 Aelod o Staff
- A'r Agor 06:00-22:00
- Menter Gymdeithasol 2011
- Aelodaeth yn cynyddu, o bob rhan o Sir Fôn
- Prif mentor Cryfder a Chyflyru ar gyfer Timau Gemau'r Ynysoedd

- 5 Staff Members
- Open 06:00-22:00
- Social Enterprise 2011
- Growing Membership from all over Anglesey
- Main Strength and Conditioning mentor for Island Games Teams

# Nodau'r Ganolfan
# Aims for the Centre

- Darparu ffitrwydd i bawb
- Fforddiadwy i bawb
- Cynnig gweithdai (WM)
- Cynghori timau ac unigolion
- Hyrwyddo Cynhwysedd Cymdeithasol
- Darparu Addysg maethlon
- Sicrhau bydd Môn y sir mwyaf heini yng Nghymru
- Meithrin ac Annog cyfranogiad pobl ifanc
- Datblygu gyrfa
- Cyflogaeth
- **Cyfranogi gyda chwaraeon anabledd.**

- Provide fitness for all
- Affordable to all
- Offer workshops (WM)
- Advise teams and individuals
- Promote Social inclusion
- Provide Nutritional education
- Making Ynys Mon the fittest county in Wales
- Nurture and Encourage youngsters participation
- Career development
- Employment
- Engage with disability sport

# Ystafell Ffitrwydd a Ffisio Newydd
# New Fitness and Physio Room
# Arian wedi ei Sicrhau- Secured Funding

- Viable, Vibrant Places - £60,000
- Cyfenter - £40,000
- Sports Wales - £25,000

# Ehangu'r Ganolfan - CentreExpansion

CANOLFAN Codi Pwysau a Ffitrwydd Caergybi a Môn
Holyhead & Anglesey Weightlifting ~ Fitness CENTRE









# Ein Cais - Our Bid

Rydym yn gwneud cais am gyllid ar gyfer yr offer canlynol i'r Ystafell Ffitrwydd Newydd:-

- Gwrthiant
- Swyddogaethol
- Cardio
- Adfer
- Adsefydlu / Prehab

- Cyfanswm = £ 60,000

We are applying for funding for the following Equipment for the new Fitness Suite:-

- Resistance
- Functional
- Cardio
- Recovery
- Rehab/Prehab

- Total = £60,000

# Iaith a Diwylliant - Culture & Language

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Ynys Môn
- Datblygu hyfforddwyr dwyieithog
- Parhau i gynnal pencampwriaethau Gwladol a Rhyngwladol

- Increase awareness of Welsh language and culture of Isle of Anglesey
- Develop bilingual coaches
- Continue to host National and International Championships

# Academi Iau a Bootcamp
# Junior Academy and Bootcamp







# Noddion y Clwb a Gweithgareddau Elusennol
# Club Sponsorship and Charitable activities















# Promoting Anglesey
# hyrwyddo Ynys Môn

CANOLFAN
Codi Pwysau a Ffitrwydd
Caergybi a Môn
Holyhead & Anglesey
Weightlifting ~ Fitness
CENTRE










# Llwyddiannau - Successes

Phil Niblock






Byron Jones

# Proffil Athletwr - Athlete Profile

## Gareth Evans




## Sam Henderson




# Proffil Athletwr - Athlete Profile

CANOLFAN
Codi Pwysau a Ffitrwydd
Caergybi a Môn
Holyhead & Anglesey
Weightlifting ~ Fitness
CENTRE

## Catrin Jones




## Stephanie Owens



# I Grynhoi- In Summary

- Wedi Sicyrhau £ 125,000
- Adeilad wedi ei gwblhau (cyfalaf)
- IOACTF Cais am Grant £60,000 i Ariannu Offer penodol ar gyfer Perfformiad a defnydd gan y cyhoedd wedi ei ddanfon

- Funds Secured £125,000
- Build Complete (capital)

- IOACTF Grant Application £60,000 submitted to Fund Specific Equipment for Performance and Public Use

## Diolch yn Fawr

**Hoffem ddiolch i chi am y cyfle i gyflwyno.**

## Thank You

**We would like to thank you for the opportunity to present.**











# Holyhead & Anglesey

# Weighlifting and Fitness Centre

## Development Plan 2015-2018

## Introduction

Holyhead and Anglesey Weightlifting and Fitness Centre (HAWFC) became synonymous when Mr. Bob Wrench was appointed as a PE master at Ysgol Uwchradd Caergybi in 1970. A seed was sown which led to a surge of interest in Weightlifting and the development of local elite athletes who became high achievers on the international stage, this interest continues unabated to this day.

After combining a successful career in the Army, attaining the rank of Captain, alongside being an accomplished elite athlete representing Wales at multiple Commonwealth Games and winning a Gold Medal in 1986 the Centre's current custodian is Ray Williams. Ray was 11 years old at the time of Bob Wrench's appointment and today he carries the tradition forward and is busily nurturing future local custodians of sport for which Holyhead and Ynys Môn should be justifiably proud.

Though constrained by a number of limiting factors, Holyhead & Anglesey Weightlifting and Fitness Centre is a very successful and nationally regarded sports facility, having substantially contributed to the development of over 100 multisport national champions, Commonwealth Games Gold and Silver and Bronze medalists and one World Champion. Its head coach was appointed National Weightlifting Coach for the 2006 Melbourne, 2010 Delhi and 2014 Glasgow Commonwealth Games and the Welsh team for the 2007 Copenhagen Cup competition was made up exclusively of Holyhead club members.

HAWFC was also used as a Training Centre of Excellence for the 2012 London Olympics, one of only two in Wales. The elite success is a source of great pride but this is very much a secondary consideration in terms of building for the future and the Centre's underlying objectives of addressing the health, wellbeing, fitness and personal development needs of our local people, and young people in particular.

For those engaged in day to day life at the Centre, be it providing new opportunities for the community, developing talent and excellence, sustaining our language and culture through sport or merely rejoicing in the knowledge that HAWFC has some of the finest young talent in Wales and Great Britain, it is our duty to ensure the Centre moves forward with a solid foundation, a clear focus and a vision for the future.

## What Needs To Be Done?

Standing still is not an option. Standing still in today's rapidly changing environment means going backwards. It is our duty to provide for our members, the wider community and particularly local youngsters. We must secure their future, and that of this established community facility into the fifth and sixth decade and beyond.

We have a "duty of care" to the membership, a commitment to parents to develop each individual to his / her maximum potential, and to provide a safe, motivational and inviting environment in which they can pursue their sporting and personal goals in a region which unfortunately continues to be one of the poorer communities of our nation.

This can only be achieved through long term business and sports development planning. In order to succeed, we need to adopt a holistic yet realistic view of the Centre. We need to consider a range of initiatives and developments, identify and agree priorities, whilst planning short, medium and long term goals. In order to deliver we will need to maximise financial, human and all other resources throughout the Centre and beyond. This cannot be achieved by a small number it will require the energy, commitment and support of all Directors, members, parents, volunteers etc. to realise our ambitions: we will add more acumen to our board during the next few months to help achieve this.

## Development Plan

Listed below are a series of “developmental tasks” and proposals. Set against each are targets, short / medium / long term goals, and potential completion dates. It is designed as an aide memoir, a reference point or guide. Items listed have come from several sources: during discussions with Centre officials, partner organisations within the community, parents, coaches, elite athletes, Weightlifting Wales officers and officials, visiting clubs, and competitors. Importantly they also reflect the views of our members. It is important that we consult with the membership throughout the development process thereby ensuring we meet the demands of the community. Other ideas / changes will be welcomed. Regardless, the principles remain the same:

**Where are we now ?  Where do we want to get to ?  How are we going to get there ?**

| Project | Initiative | Target Group | When | How / Who Will Deliver | Priority 1,2,3 Short. Med. Long term goal P1, P2, P3 | COST | OUTCOME |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Improved Communication** | ¼ newsletter Hard copy / e flyer | Parents, members Competitors community organizations visitors | January April August | Communications sub group | P1 | £200 | All members, competitors & community aware / involved in club matters Leading to 5% increase in club membership each edition |
| | Welcome Host<br><br>Meet and Greet front of house officer | Members, prospective members, parents partner organisations | January 2016 | Recruit young volunteer with outgoing personality to meet / greet. Attend Visit Wales Welcome Host Course | P2 | Nil | Valuable PR promotes club gives members confidence in club and point of contact |
| | Update Club Website | All members / officials / Weight lifting community | June 2015 | New volunteer webmaster recruited / trained | P2 | £200 annually | Improved club communication New volunteer recruited – trained improved employment |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | prospects |
| | Centre notice boards | Juniors / members / visitors / competitors | Sep 2015 | Club officials To install | P1 | £300 | Improved communication/profile – sense of belonging |
| | Affiliate to S. Development Club contacts | Prospective new members | Autumn | Secretary | P1 | Nil | Increase Centre profile info for new members |

**Development Plan 2015 - 2018** **Centre improvements / Centre Management**

| **Project** | **Initiative** | **Target Group** | **When** | **How / Who Will Deliver** | **Priority 1,2,3 Short. Med. Long term goal** | **COST** | **OUTCOME** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Centre improvements** | Extend Facilities to include Fitness Suite segregated toilets/showers and Physiotherapy room | All users | 2015- 2016 | Centre officials / part of grant aid programme | P1 | 125,000 | Safe, user improved facility Increased Membership |
| **Centre improvements** | Furnish New Refurbishment | All Users | 2015 | Centre officials / part of grant aid programme | P1 | 60,000 | Safe, user improved facility Increased |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Membership |
| | Upgrade surrounding areas to improve visual impact | All users | 2015- 2016 | Centre officials / part of grant aid programme | P2 | Nil<br>Free labour /materials | Safe, user friendly visually improved facility |
| | Remove / soften security measures on site | All users | 2015- 2018 | Club officials / part of grant aid programme | P2 | Nil<br><br>Free labour /materials | Safe, user friendly visually improved facility |
| | Introduce cleaning / tidy housekeeping programme | Members / officials | 2015 – 2018 ongoing | Recruit / employ squad of rota'd cleaners. Site manager to oversee | P1 | To be agreed | Clean facility – better user experience. Prolongs life of facility |
| | Establish Centre shop | Members / parents Visitors | 2015 ongoing | Volunteer members | P2 | Initial outlay for stock or sale and return | Generate £1000 p.a.for Centre |

**Development Plan 2015 – 2018** **Community**

| Project | Initiative | Target Group | When | How / Who Will Deliver | Priority 1,2,3 Short. Med. Long term goal | COST | OUTCOME |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Develop community aspect** | Undertake mapping exercise Develop measured jogging trail within grounds | Open access. Use by members for CV/ fitness training | 2015 / 2016 | Centre to discuss with school YMCC | P3 | £500 for mapping leaflets markers for course | Fun Fitness for members / families school pupils/ community |
| | Develop step counted walk within grounds | Open access. Use by members for health fitness training programmes | 2015 / 2016 | Centre to discuss with school YMCC Public health organisations | P3 | Included in above | Fun Fitness for members / families , school pupils/ health programmes community |
| | Establish annual programme of social events to encourage community engagement | Holyhead/Anglesey community | 2015 - ongoing | Centre manager / members and committee | P1 | £500 outlay<br><br>Potential income £1000 | Community involvement with the Centre |

**Development Plan 2015 – 2018** **Coaching / Membership // Performance**

| Project | Initiative | Target Group | When | How / Who Will Deliver | Priority 1,2,3 Short. Med. Long term goal | COST | OUTCOME |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Coach Education** | Establish annual coach education programme. Recruit, train mentor new coaches | Parents, club members Young leaders within school / education system Disadvantaged young people / those at risk | 2015 ongoing | Welsh Weighlifting / club coach | P1 | £1,000 per annum via grants | 5 new coaches per annum 2 improved per annum |
| **Young Leaders** | Training young leaders | Year 11 & 6th form age | 2015 ongoing | Club H Head High School Community / youth groups | P1 | £120 per person | Reward young people. Recruit / train and deploy 3 club ambassadors each year |
| **Mentoring** | Undertake annual coach mentoring programme | New coaches / coaches seeking to improve their ability Those potentially looking for | 2015 ongoing | Welsh Weighlifting / club coach | P1 | £1,000 per annum via grants | 5 coaches mentored per annum per annum |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | employment | | | | | |
| **Coach development** | Seasonal coaching clinics | All coaches | 2015 ongoing | W Weightlifting / Club coach | P1 | Nil | All coaches engaged |
| **Referees / officials** | Appoint officials coordinator Establish annual officials course | Coaches, interested members / parents | 2016 ongoing | Welsh Weightlifting / club coach | P1 | £1,000 per annum via grants | 3 new officials trained each year |
| **Project** | **Initiative** | **Target Group** | **When** | **How / Who Will Deliver** | **Priority 1,2,3 Short. Med. Long term goal** | **COST** | **OUTCOME** |
| **Child Welfare** | Appoint and train 2 x child welfare officers | Centre officials | 2015 - 2018 | W Weightlifting / YM CC | P1 | Nil | Qualified Welfare officers to work with members / coaches Welfare policy for club in place All members to be aware of club Welfare officer |
| **New members** | Recruitment campaign as part of extension | Young people. Women and Girls | 2015 - ongoing | Centre members / manager / club | P1 | Pop Up Desk at Major Events. | Increase membership by 60 year on year. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | programme | Disadvantaged groups<br>Adults<br>Holyhead/ across Ynys Mon | | coach to engage in school link programmes<br>Fun festivals.<br>Work with community agencies | | Demonstrations at Primary Schools | Current membership 500.<br><br>Increase to 1200 by end of 2018 |
| **Centre programme** | Expand / introduce new programmes / sessions to meet community needs | All sections of the community | 2015 ongoing | Centre committee / manger / club coach | P1 | To be determined | Increase<br>3 different programme types over 1st year of scheme<br>thereafter respond to trends / demand |
| **Disability** | Develop disability specific and integrated activity programmes | All sections of the community | 2016 ongoing | Centre committee / manger / club coach | P2 | To be determined | 20 disability members within 12 months<br>Grow disability membership by 5% year on year<br>2 dedicated disability sessions per week |

| Project | Initiative | Target Group | When | How / Who Will Deliver | Priority 1,2,3 Short. Med. Long term goal | COST | OUTCOME |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Women and Girls (W&G)** | Develop W&G specific activity programmes | All sections of the community | 2015 ongoing | Centre committee / manger / club coach | P1 | To be determined | 30 disability members within 12 months<br>Grow W&G membership by 10% year on year<br><br>3 dedicated W&G sessions per week |
| **Equipment** | Rolling Upgrades As and when required | All users | 2015-2018 | Coaching staff | P1 | Various dependant on grant schemes | More variety and maximum activity with increasing membership |
| **Recognizing achievement** | ¼ ly acknowledgement Awards ceremony | All Centre members | 2016 ongoing | Centre committee | P2 | £500 per annum | Club celebrate achievement in all categories<br>Junior adult W&G disability<br>Coaching performance |

This page is intentionally left blank

**Rhun ap Iorwerth**

Aelod Cynulliad dros
Ynys Môn

Assembly Member for
Ynys Môn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Mawrth 24ain 2015

Richard Parry Jones,
Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor,
LLANGEFNI,
Ynys Môn
LL77 7TW

Annwyl Richard,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn cyfarfod o gynrychiolwyr Cyngor Tref Amlwch a chynghorau cymuned gogledd yr ynys ddydd Gwener pan drafodwyd y broses sy'n mynd rhagddi i geisio gwerthu safle Shell yn Rhosgoch. Mynegwyd pryder yn y cyfarfod bod y gwerthiant yn digwydd ar amser anffodus, a bod yr amseriad ddim yn caniatáu i bob opsiwn gael eu hystyried.

Y teimlad yn y cyfarfod oedd y dylid sicrhau bod pob opsiwn ar gyfer clymu'r safle i ddatblygiad Wylfa yn cael eu hystyried (e.e. bod Horizon yn cael rhagor o amser i ystyried defnydd y lle fel lleoliad ar gyfer cartrefu gweithwyr dros dro neu fel safle ynghlwm â'r gwaith adeiladu/cadwyn gyflenwi) ac yn benodol y dylid sicrhau digon o amser i ystyried sut allai'r gymuned elwa fwyaf yn yr hir dymor o unrhyw gytundeb.

Gofyn am gyfnod o oedi mae'r cynghorau ac rwy'n deall eu bod yn bwriadu ysgrifennu atoch i wneud y cais hwnnw. Tybed allech chi roi sicrwydd y bydd y cais ar agenda eich cyfarfod nesaf fel Ymddiriedolaeth?

Yn gywir,

**RHUN AP IORWERTH**
Aelod Cynulliad Ynys Môn / Assembly Member for Ynys Môn

ADRAN PRIF WEITHREDWR
25 MAR 2015
CHIEF EXECUTIVE'S DEPT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Rhun.apIorwerth@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44(0)29 2089 8270

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Rhun.apIorwerth@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44(0)29 2089 8270

This page is intentionally left blank

CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor
Llawr y Llan
Lôn Goch
Amlwch
Ynys Môn LL68 9EN

Ffôn/Tel: 01407 832228
Ffacs/Fax: 01407 839041
E-bost/E-mail: marilynhughes@amlwchcf.org

Ebrill 1af 2015

ADRAN PRIF WEITHREDWR
13 APR
CHIEF EXECUTIVE'S DEPT

Mr. Richard Parry Jones
Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Elusennol
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni

Annwyl Mr. Jones

**PAR: SAFLE RHOSGOCH**

Yn dilyn cyfarfod yn ddiweddar gyda Chynghorau Cymuned/Tref:Amlwch/Rhosybol/Llaneilian/Llanbadrig a Llanfechell rwyn ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd o Ysgrifennydd yr Elusen.

Yr ydym yn bryderus fod penderfyniad wedi ei wneud i werthu'r safle ac mae'r Cynghorau yn unfrydol gytun i ofyn i chi ohirio unrhyw benderfyniad ynghlwm a'r gwerthiant am gyfnod o naw mis er mwyn edrych yn ddwys ar opsiynnau posib. Gofynwn arnoch i gynnwys y mater ar agenda'r cyfarfod nesaf o'r Elusen. Mae angen ystyried yn ddwys beth sydd yn bwysig i Fôn i'r dyfodol, ar ddiwedd y dydd,sefydlwyd yr Elusen er lles pobl Môn.

Mae llawer iawn o botensial ar y safle gyda chyfle i greu gwaith sydd yn flaenoriaeth yn yr ardal yma. Y *teimlad yw pe tai'r* Ymddiriedolaeth yn fodlon i gyd-weithio mewn partneriaeth gyda cwmniau fel Horizon neu unrhyw gwmni arall. Un syniad cryf yn y drafodaeth oedd creu cartrefi i weithwyr tra byddent yn adeiladu Wylfa Newydd. Pwyntiau a godwyd oedd pe tai'r Ymddiredolaeth yn gwerthu'r safle am 2/3 miliwn, roeddynt yn teimlo fod angen edrych ar gwerth y safle dros ddeg i ugain mlynedd a hefyd pwynt pwysig oedd creu gwaith i bobl leol dros yr ugain mlynedd nesaf yn hytrach nag elw sydyn. Pwynt arall a godwyd oedd posibilrwydd creu adnoddau hamdden allanol i.e. llynoedd a.y.y.b yn y gwersyll. Pan ddaw yr adeiladu i ben fod y safle yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r Ymddiriedolaeth i gael ei redeg er budd i dwristiaeth ynghyd a phobl lleol neu gwerthu'r safle gyda'r adnoddau.

Yr ydym wedi sefydlu fforwm o  Gynghorau Cymuned lleol ac mae pob un o'r Cymunedau uchod yn unfrydol eu barn i ofyn am i chi ohirio unrhyw benderfyniad ynghlwm a'r gwerthiant.

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich ymateb.

Yr eiddoch yn gywir,

M.Hughes – Mrs
Clerc y Dref

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank